

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon  
A gynhaliwyd ar Nos Mawrth 4ydd 2015  
am 7 - 0 o'r gloch.**

**1. Croeso** - Agorwyd y Cyfarfod gan y Gadeirydd Cyng. G Moore, gan estyn croeso cynnes i bawb oedd yn bresennol.

**Presennol** - Cynghorwyr G Moore (Cadeirydd), Emlyn Jones (Is-Gadeirydd), Ruth Roberts, Mary Ellis, Lewis Davies, Dafydd Roberts, Wyn Hughes, Carwyn Jones, Delyth Jones, Ann Roberts, Alan Owen, Keith Williams a Geraint Parry (Clerc).

**2. Ymddiheuriadau:-**

Cyng. A Rowlands.

**3. Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 11 fed o Chwefror fel rhai cywir gan Cyng. E Jones, eiliwyd gan Cyng. D Roberts wrth newid dau bwynt.

Agorwyd y cyfarfod gan fynd yn drafodaeth gyda'r Heddlu.

**4. Materion yn Codi o'r Cofnodion**

- Llysiau'r dial yn tyfu tŷ cefn i giosg yng Nglanrafon - A Moore i drin yr ardal.
- Dim newyddion ymhellach gyda Infois Annog Cyf
- Gwrych ger mynedfa i'r maes parcio yn Lleiniog wedi ei dorri.
- Helyg yn ffos ger Bay View - gwaith mewn llaw.
- Clerc wedi anfon llythyr ymlaen i K Moore ynglŷn ar beiriannau fferm ar dir comin ger top Plas Newydd. Cyng. A Owen wedi trafod y mater hefyd.

**5. Datgan Diddordeb**

- Cyng. G Moore ac A Owen ar drafodaeth Neuadd y Pentre'
- Cyng. L Davies ar gais 35C320A.
- Cyng. M Ellis ac D Jones ar drafodaeth Grŵp Cymunedol Llangoed

**6. Sylwadau Ceisiadau Cynllunio**

- 35C320A - Cais amlinellol ar gyfer codi annedd yn cynnwys manylion llawn am fynedfa a graddfa ar dir ger Pen y Waen, Glanrafon - dim gwrthwynebiad, ond i sicrhau bod y drychiad yn gywir o ran materion carthffosiaeth a dŵr yn yr ardal yma.

**Er Gwybodaeth**

- 35C145E - Cais llawn ar gyfer estyniad i'r cwrtil preswyl yn Arlunfa, Penmon - wedi ei caniatáu
- 35C100E - Cais llawn ar gyfer codi annedd ynghyd a chreu mynedfa i gerbydau ar dir ger Glandwr Cottage, Glanrafon - wedi ei caniatáu.

**7. Adroddiad gan y Cynghorwyr Lleol**

- 7.10 Cyngor Sir yn mynd i lenwi tyllau ar y ffordd ger y Gatehouse, ond dim ail-wynebu.
- 7.11 Llwybr Tawelfan - Cyngor Sir yn ymddiheuro fod nhw ddim wedi ymateb. Dim gwybodaeth ymhellach.
- 7.12 Wedi derbyn cwyn bod y ffermwr sy'n rhentu caeau Haulfre wedi gwneud golwg ar domen Chadwick wrth symud y byrnau gwair. Wedi trafod y mater gyda'r Cyngor Sir.
- 7.13 Wedi ymuno a chyfarfod Grŵp Pobl Seiriol 25/02/15 yn Y Canolfan Hamdden Biwmares, trafodwyd trafndiaeth, iechyd, cyfathrebu a thai fforddiadwy.
- 7.14 Gerddi Haulfre - Canolfan Cydweithredol Cymru wedi cynhyrchu adroddiad, lle mae yn nodi bod gan y lle potensial enfawr.
- 7.15 Wedi cysylltu ar Cyngor Sir ynglŷn ar giât ar dop y steps ar y llwybr ger Eglwys Penmon - nid yw'r llwybr yma yn rhan o'r llwybr arfordirol. Cyng. A Owen wedi cytuno edrych ar y broblem.
- 7.16 Ysgol Llangoed wedi derbyn y cynnig o'r coed gan y WI.
- 7.17 Cyng. C Jones yn adrodd - trafodwyd cyllideb y Cyngor ac wedi gwrthwynebu'r cynnydd i dreth gyngor, tocynnau bws ysgol ac i'r cynllun gweithio'n gallach.
- 7.18 Gorchymyn prynu'r gorfodol ar gyfer fynwent newydd yn Llanddona wedi bod yn llwyddiannus.
- 7.19 Pobl Seiriol - cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp gorchwyl heno yn Iolfa Pont y Brenin. Cyngor Sir yn meddwl gosod Wi-Fi yno, ond gyda thrafferthion gyda threfniadau'r gyllideb, cynigwyd bod y Cyngor Cymuned i dalu'r 18 mis cyntaf o'r contract. Pawb yn gytûn.

**8. Neuadd y Pentre'**

Cyfarfod misol dim wedi ei gynnal eto.

Disgwyl fwy o wybodaeth bellach ynglŷn â sefydlu Wi-Fi

Digwyddiadau yn y dyfodol:-

Cyfarfod blynyddol wedi ei drefnu ar 14/04/15

Digwyddiad darts – 16/03/15

Parti – 16/04/15

Priodas – 25 hyd at 29/06/15

**9. Grŵp Cymunedol - Ffrindiau Llangoed**

Cyng. D Jones yn adrodd:-

Mis diwethaf cymerodd 37 o blant ran mewn gwahanol ddigwyddiadau. Castell Pren nawr wedi ei osod, yn Maes Chwarae Plant, disgwyl asesiad risg iddo. Trafodaeth wedi cymryd lle gyda Cyng. A Rowlands ynglŷn â chael defnydd o'r Mini Bus.

Ceisiadau am grantiau mewn llaw:-

- Cymru Cyntaf o £500 ar gyfer Sgwâr Tawelfan
- Gwirfoddolwyr Ifanc
- Trwyn Coch
- Grant Cymunedol Chwarae Môn

Fair Pasg wedi trefnu ar 4/04/15 yn y Neuadd.

Gwasanaeth Cymunedol i beintio ayyb yr offerion chwarae.

Trafodwyd y sefyllfa o ran talu'r anfonebau ayyb. I drafod ymhellach.

**10. Grant Gwella Amgylchedd**

Penderfynwyd gwneud cais am arwydd goryrru fflachio. Clerc i gael y manylion.

**11. Materion Carthffosiaeth**

Derbyniwyd diweddariad gan Andrew Wild (Rheolwr Carthffosiaeth Dwr Cymru) dilyn ei ymweliad i ein cyfarfod mis Chwefror, lle mae yn cadarnhau y gall yr ymchwiliad blaenorol i'r llifogydd yn ardal Llangoed yn cael eu gwella ac yn symud i'r cam nesaf.

Cyng. L Davies - wedi derbyn e-bost gan D Williams Cyngor Sir, lle cafwyd gwybodaeth fod cyfarfod gydag Arweinydd y Cyngor Sir a dau uwch swyddog Dwr Cymru wedi cymryd lle ar 3/03/15. Gytunwyd iddynt ganolbwyntio a symud ymlaen gyda day gynllun, un ohonynt yn Llangoed.

Hefyd derbyniwyd e-bost gan J Stockton-Wood - yn siomedig iawn gydag ymateb a diffyg cynnydd gan Dŵr Cymru.

**12. Fynwent y Plwyf**

Clerc yn egluro fod wedi derbyn 4 diddordeb i dorri'r fynwent. Diwrnod cau i dderbyn prisiau 4/04/15.

**13. Cyfrifon**

Penderfynwyd talu:-

- J Roberts, gwaith awdit 2013/14 - £42.00
- N Thomas, gwaith cynnal a chadw gwarchodfa bws 2013/14 - £100.00

**Incwm**

- Cyngor Sir, ad-daliad gynnal llwybrau cyhoeddus 2013/14 - £913.10
- Fynwent y Plwyf - £150.00

**14. Gohebiaeth**

Apêl Papur Menai

**15. UFA:**

15.1 Dau swyddog o'r Heddlu yn bresennol. Trafodwyd materion lleol - goryrru trwy'r pentre', lle i gorau i fonitro cyflymder, baw cŵn, Clerc i ddilyn i fyny gyda'r arwyddion.

15.2 D Tomley, Bwthyn Llwyn, Tŷ Rhys yn bresennol i drafod materion yn ymwneud a'r llwybr troed ger ei eiddo a'r wal gerllaw. Dilyn trafodaeth penderfynwyd bod rhai o'r materion a godwyd yn fater sifil rhwng Mr Tomley a Cyng. L Davies. Cyngor Cymuned i drafod y sefyllfa ynglŷn â diogelwch y llwybr troed gyda'r Cyngor Sir.

Penderfynwyd hefyd, gydag unrhyw faterion tebygol yn y dyfodol, ein bod yn gofyn i'r mater fod yn ysgrifenedig yn y lle cyntaf.

15.3 Cyng. K Williams yn adrodd fod yr hanner marathon ar 1/03/15 yn ddigwyddiad llwyddiannus iawn ond oedd agwedd diogelwch y rhedwyr ar draffig wedi ei reoli'n wael heb ddigon o farsialiaid. Cyng. L Davies i godi'r mater gyda'r trefnwyr.

15.4 Clerc wedi cael cais gan J Woods am ganiatâd i dacluso'r tir comin drwy gael gwared â'r sbwriel ayyb ar y tir comin ger Penmarián Mawr. Mae gwaith yn mynd ymlaen i atgyweirio'r wal gerrig hyd at fynedfa Tŷ Cytws. Pawb yn gytûn.

15.5 Gerddi Haulfre nawr ddim yn gallu torri tir comin domen Haulfre, ger Tafarn y Rhyd a thir ger Bay View a thŷ cefn i Warchodfa Bws yng Nglanrafon oherwydd y sefyllfa gyda'r yswiriant y tractor.

15.6 Clerc i rannu rhaglen hyfforddiant Un Llais ar gyfer Chwefror - Mehefin.

## **16. Dyddiad cyfarfod nesaf:**

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Gadeirydd i bawb am eu cyfraniad.

Daeth y cyfarfod i derfyn am 9.50 o'r gloch.

Cyfarfod nesaf 8/04/2015

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad